OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2004 Rhif 1605 (Cy.164)

Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd am Gyffuriau a Chyfarpar) (Cymru) (Diwygio) 2004

Wedi'u gwneud - -	*23 Mehefin 2004*
Yn dod i rym - -	*1 Hydref 2004*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, trwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 77 a 126(4) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977(**1**) drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

Enwi, cychwyn, dehongli a chymhwyso

1.—(1) Enw'r rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd am Gyffuriau a Chyfarpar) (Cymru) (Diwygio) 2004 a deuant i rym ar 1 Hydref 2004.

(2) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "y prif Reoliadau" ("*the principal Regulations*") yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd am Gyffuriau a Chyfarpar) (Cymru) 2001(**2**).

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru yn unig.

Diwygio rheoliad 2 o'r prif Reoliadau

2.—(1) Mae Rheoliad 2 o'r prif Reoliadau (dehongli) yn cael ei ddiwygio yn unol â darpariaethau canlynol y rheoliad hwn.

(2) Ym mharagraff (1) mewnosoder y diffiniad canlynol yn y lle priodol yn nhrefn yr wyddor—

"mae i "Bwrdd Iechyd Lleol" yr ystyr a roddir i "*Local Health Board*" gan adran 16BA o'r Ddeddf;".

(3) Ar ôl paragraff (1), mewnosoder y paragraff canlynol—

"(1A) Bydd y geiriau "Awdurdod Iechyd", ym mhob man lle maent yn digwydd, yn effeithiol fel pe rhoddwyd yn eu lle'r geiriau "Bwrdd Iechyd Lleol".".

(**1**) 1977 p.49; *gweler* adran 128(1) fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Gofal Cymunedol 1990 (p.19) ("Deddf 1990"), adran 26(2)(g) ac (i), i gael y diffiniad o "prescribed" a "regulations".
Diwygiwyd adran 126(4) gan Ddeddf 1990, adran 65(2) a Deddf Iechyd 1999 (p.8) ("Deddf 1999"), Atodlen 4, paragraff 37(6). Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adrannau 77 a 126(4) i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S.1999/672), erthygl 2 ac Atodlen 1, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf 1999, adran 66(4) Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2001 (p.15), adran 68(1), Deddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002 (p.17), adran 40(1) a Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003 (p.43), adran 197(1) .

(**2**) O.S.2001/1358 (Cy.86). Yr offerynnau diwygio perthnasol yw O.S.2001/2359 (Cy.196) a 2004/1018 (Cy.115).

Diwygio symiau a bennir yn y prif Reoliadau

3. Am bob swm a bennir yng ngholofn (3) o'r Atodlen i'r Rheoliadau hyn, lle mae'n ymddangos yn narpariaeth y prif Reoliadau a bennir mewn perthynas ag ef yng ngholofn (1) (y dangosir y pwnc amdano yng ngholofn (2)), rhodder y swm a bennir mewn perthynas ag ef yng ngholofn (4) yn ei le.

Diwygio rheoliad 8 o'r prif Reoliadau

4. Yn rheoliad 8(2)(b) yn lle "is-baragraff (b)" rhodder "is-baragraff (a)".

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**3**)

D. Elis-Thomas
23 Mehefin 2004 Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**3**) 1998 p.38.